

# WELI DI FI?

## Gwella mynediad i unigolion ag awtistiaeth


**Mae awtistiaeth yn effeithio ar 1 mewn 100 o bobl**

**Cyflwr gydol oes yw awtistiaeth, felly mae’n effeithio ar blant ac oedolion**

**Anabledd cudd yw awtistiaeth**

**Mae unigolion ag awtistiaeth yn ei gweld hi’n anodd mynd i siopau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden**

**Trwy wneud newidiadau bychain, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i unigolion ag awtistiaeth**



**Tra bydd rhai pobl, o bosibl, ddim am i chi wybod fod ganddynt awtistiaeth, mae rhai yn dymuno i chi wybod hyn.**

**Bydd nifer o bobl yn cael anhawster yn dweud wrthych chi.**

**Rydym wedi datblygu’r cynllun hwn i’ch helpu i adnabod pan mae rhywun ar y sbectrwm awtistig ac i ddeall sut y gallwch chi helpu.**

**Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am gymryd rhan.**

Pan fyddwch yn gweld y patrwm hwn, mae’n golygu fod gan rywun awtistiaeth:

Efallai y byddwch yn ei weld ar freichled, cerdyn neu ffôn symudol.

Edrychwch ar y wybodaeth ychwanegol sy’n amlinellu sut y gallwch gefnogi unigolion ag awtistiaeth ac edrychwch ar ein gwefan am ragor o wybodaeth ac adnoddau

www.ASDinfoWales.co.uk

WLGA · CLILC
GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government